

Arweiniad ar gyfer Adolygwyr yr Adroddiad Cerdyn Prynu Wythnosol

Cefndir

Mae'r prosesau newydd i brynu pethau gyda Cherdyn Prynant wedi eu sefydlu ers ychydig dros flwyddyn bellach. Yr adolygiad hwn yw rhan olaf y broses honno.

Gyda'r drefn bapur flaenorol roedd angen i bryniannau pob deiliad cerdyn gael eu hadolygu gan aelod priodol o'r staff goruchwyllo i wirio bod y cerdyn yn cael ei ddefnyddio'n unol â pholis a threfn brynant y Brifysgol a chofnodwyd hyn drwy lofnodi pennyn y swp bob mis.

Dan y system newydd, mae trafodion gyda Cherdyn Prynant yn cael eu cymeradwyo ymlaen llaw ac nid oes angen cymeradwyo trafodion unigol o fewn llif gwaith Agresso. Mae'r dasg adolygu newydd yn dasg bwysig i ddangos i oruchwyllo'r llwybr caffael pwysig hwn.

Bydd y dasg adolygu newydd wedi'i seilio ar sypynnau yn debyg i'r hen system bapur, ond caiff cofnodir y trafodion fel rhai wedi'u hadolygu mewn adroddiad llif gwaith Agresso. Y 'swp' newydd i'w adolygu fydd adroddiad yn dangos rhestr o'r pryniannau a wnaed bob wythnos yn achos pob deiliad cerdyn.

Tasgau llif gwaith

Caiff yr adroddiadau wythnosol fesul deiliad cerdyn eu cynhyrchu bob nos Sul, a byddant yn ymddangos yn y sgrin Tasgau Llif Gwaith yn yr un modd â thasgau llif gwaith eraill. Drwy glicio ar y dasg, agorir y sgrin Adroddiad Llif Gwaith.

Report comment

Report information

Report name	PCTR	Report file	PCTR
Order date	17/11/2015	Order number	2
Purchasing Card Holders Resource ID	038130	Document title	pctra_3_2.pdf
Document description	038130 : 01/10/2015 to 31/10/2015		

Map

Image

Protected View: This file originated from a potentially unsafe location, and most features have been disabled to avoid potential security risks.

Options

Posted Purchasing Card Transactions for Cardholder: 038130 01/10/2015 to 31/10/2015

GL Posted	Trans Date	Daysto	TransNo	Project	Account	Text	Amount
13/10/2015	24/09/2015	19	19077795	G76505	803	Mona Tractor Co Credit Voucher Mona Tractor Co	-96.47
13/10/2015	24/09/2015	19	19077764	G76505	803	Mona Tractor Co Purchase of parts to fix machinery.	1254.10
20/10/2015	20/10/2015	9	19079466	B20214	546	Flybe.Com Flights for educational visit	6360.00
21/10/2015	13/10/2015	8	19078784	G70200	542	Trainline Traintickets for the Agresso UK Workshop at Aintree. 179053426	30.00
21/10/2015	12/10/2015	9	19078682	G70200	802	Aberconwy Car And Van Hire Car rental for NWUPC meeting 99539	22.20
21/10/2015	08/10/2015	13	19078945	G70200	810	Texaco Garth Fuel for hire car to NWUPC meeting at Harper Adams.	22.68
13/10/2015	02/10/2015	11	19078432	G76501	542	Virgintrains.Co.UK Train Tickets for Sam Wallwork Canolfan Brailsford. 178865243	121.10
13/10/2015	06/10/2015	7	19078534	R20W01	944	Regus Room Hire and Lunch	1178.88

Arddangosir adroddiad ar wahân yn y bocs delwedd ar gyfer pob deiliad cerdyn. Mae'r adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ganlynol i chi ei hadolygu.

Postiwyd y GL: Y dyddiad y postiwyd y trafodiad i'r Llyfr Cyfrifon

Dyddiad y Prynant: Y dyddiad y gwnaed y pryniant.

Nifer y diwrnodau: Nifer y diwrnodau rhwng y pryniant a'r postio. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod yn llai na 10 niwrnod.

Rhif y Trafodiad: Rhif trafodiad Agresso - gellir defnyddio hwn mewn adroddiadau fel yr adroddiad TL40 i archwilio eitem yn fanwl, yn cynnwys y dogfennau a sganiwyd ar gyfer y pryniant.

Project: Cod y Project


Cyfrif: Rhif y Cyfrif

Testun: Crynodeb o'r pryniant a nodwyd gan ddeiliad y cerdyn

Swm: Y swm a godir ar God y Project.


Cymeradwyo

I gadarnhau eich bod wedi adolygu'r adroddiad ar gyfer deiliad y cerdyn a gorffen tasg y llif gwaith, pwyswch y botwm 'APPROVE'




Anfon Ymholiad

Os oes ymholiad, dewiswch y botwm 'FLAG A QUERY', nodwch grynoded o'r ymholiad a phwyswch y botwm 'flag a query' ar y neidlen sylwadau.



Bydd

hyn yn rhoi'r dasg i mewn i'r llif gwaith Ymholiad. Bydd y dasg yn awr yn ymddangos ar y rhestr tasgau fel 'Query - Cardholder Trans Report'



Drwy ddewis y dasg 'Query', ceir tri chynnig.

Save report comments: Mae hwn yn cadw'r sylwadau ychwanegol a nodir gan y defnyddiwr yn y bocs sylwadau am yr adroddiad.

Forward: Mae hwn yn caniatáu i'r ymholiad gael ei anfon at ddefnyddiwr Agresso arall i gael sylwadau ychwanegol.

Approve: Mae hwn yn cadarnhau eich bod wedi adolygu'r adroddiad ac yn cadw'r sylwadau ar yr Ymholiad ac yn gorffen tasg y llif gwaith.

Rhagor o wybodaeth am ddefnyddio Cardiau Prynu

[Canllawiau i Ddefnyddwyr Cardiau Prynu yn cynnwys Arweiniad ar Arfer Da](#)

[Gweithdrefnau Prynu](#)

[Cysylltiadau yn y 'Corporate Procurement Unit'](#)

Rhagor o wybodaeth am lif gwaith Agresso a chefnogaeth i ddefnyddwyr

Canllawiau Hyfforddiant Agresso <http://www.bangor.ac.uk/itservices/agresso/agr03.php.cy>

E-bost Desg Gymorth Agresso: agressohelpdesk@bangor.ac.uk

Cefnogaeth i ddefnyddwyr Agresso: 2636